# PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion cyfarfod Hybrid a gynhaliwyd ar 25 Ionawr, 2024.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd N. Thomas (Cadeirydd); Cynghorydd S.D. Perkes (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr G. Bruce, I. Buckley, C.A. Cave, C.E.A. Champion, P. Drake, A.M. Ernest, W. Gilligan, N.P. Hodges, Dr. I.J. Johnson, H.M. Payne, I.A.N. Perry, C. Stallard, E. Williams, a M.R. Wilson.

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr A. Asbrey, C.P. Franks, W.A. Hennessy a R. Sivagnanam

| **Enw'r Siaradwr** | **Rhif Cais Cynllunio a Lleoliad** | **Rheswm dros Siarad** |
|---|---|---|
| Mr. Jon Hurley | 2023/00087/FUL - Eglwys Fethodistaidd Crossway, Court Road, Y Barri | Yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd |

726 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

727 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd M. Cowpe.

728 COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Tachwedd, 2023 fel cofnod cywir.

729 DATGANIADAU BUDDIANT –

Datganwyd y buddiannau canlynol:

| Cynghorydd | Rhif yr Eitem Agenda | Natur y Buddiant |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd I. Buckley | 2021/01710/FUL - Hen Gapel Methodistaidd Eastbrook, Chapel Row, Eastbrook, Dinas Powys | Natur y buddiant personol oedd bod yr Ymgeiswyr yn hysbys i'r Cynghorydd oherwydd cysylltiadau ward lleol. Arhosodd y Cynghorydd Buckley yn y cyfarfod ar gyfer yr eitem. |
| Y Cynghorydd W. Gilligan | 2021/01710/FUL - Hen Gapel Methodistaidd Eastbrook, Chapel Row, Eastbrook, Dinas Powys | Natur y buddiant rhagfarnus oedd bod yr Ymgeisydd yn aelod o'r teulu. Gadawodd y Cynghorydd Perkes y cyfarfod ar gyfer yr eitem. |
| Y Cynghorydd S.D. Perkes | 2023/00087/FUL - Eglwys Fethodistaidd Crossway, Court Road, Y Barri. | Natur y buddiant personol oedd mai'r Cynghorydd oedd Aelod Cabinet Cyngor Bro Morgannwg dros Dai'r Sector Cyhoeddus ac Ymgysylltu â Thenantiaid. Er y byddai'r Cais yn cael ei gyflwyno gan Gymdeithas Dai Newydd, nid Cais RG3 oedd y cais dan sylw. Arhosodd y Cynghorydd Perry yn y cyfarfod ar gyfer yr eitem. |

730 ARCHWILIADAU SAFLE (PW) -

PENDERFYNWYD - NODI presenoldeb y Cynghorwyr canlynol yn yr ymweliadau safle a gynhaliwyd ar 30 Tachwedd 2023.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr G. Bruce (Cei Lecwydd), C.A. Cave (y ddau safle), C.M. Cowpe (Tŷ GM2), P. Drake (y ddau safle), A.M. Ernest (Cei Lecwydd), W. Gilligan (y ddau safle), N.P. Hodges (Tŷ GM2), Dr. I.J. Johnson (Tŷ GM2), H.M. Payne (y ddau safle), S.D. Perkes (y ddau safle), I.A.N. Perry (y ddau safle), E. Williams (Cei Lecwydd) ac M.R. Wilson (Cei Lecwydd).

| | | |
|---|---|---|
| (a) | Tŷ GM2, Plymouth Road, Penarth | Y Cynghorydd N.C. Thomas (Cadeirydd)<br>Y Cynghorwyr G. Bruce, I. Buckley, C.E.A. Champion, A.M. Ernest, C. Stallard, E. Williams ac M.R. Wilson. |
| (b) | Cei Lecwydd, Heol Lecwydd, Lecwydd, CF11 8AU. | Y Cynghorydd N.C. Thomas (Cadeirydd)<br>Y Cynghorwyr I. Buckley, C.E.A. Champion, C.M. Cowpe, N.P. Hodges, Dr. I.J. Johnson, a C. Stallard.<br>Hefyd yn bresennol<br>Y Cynghorwyr: A. Asbrey a C.P. Franks. |

731 CANLLAW I SIARAD CYHOEDDUS YN ADOLYGIAD Y PWYLLGOR CYNLLUNIO (CL) –

Cyflwynodd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu yr adroddiad, diben hwnnw oedd rhoi gwybod i'r Aelodau am yr adolygiad a gynhaliwyd a diweddariadau arfaethedig i'r Canllaw Siarad Cyhoeddus, a oedd ar gael i hyrwyddo'r swyddogaeth Siarad Cyhoeddus yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio.

Ar 17 Rhagfyr 2014, penderfynodd y Cyngor Llawn gymeradwyo'r Canllaw i Siarad yn Gyhoeddus yn y Pwyllgor Cynllunio a'i fod yn weithredol o 1 Chwefror 2015. Cynhaliwyd adolygiad o'r canllaw, a chyflwynwyd canllaw diwygiedig awgrymedig (Atodiad A i'r adroddiad) i'r Pwyllgor Cynllunio i'w gymeradwyo a'i atgyfeirio i'r Cyngor Llawn i'w benderfynu'n derfynol yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau a argymhellwyd gan y Pwyllgor.

Wrth gynnal yr adolygiad, cynhaliwyd ymgynghoriad gyda swyddogion fel yr amlinellwyd ar dudalen eglurhaol yr adroddiad ynghyd â rhoi ystyriaeth i sylwadau a dderbyniwyd o ganlyniad i adborth gan siaradwyr cyhoeddus mewn cyfarfodydd o’r Pwyllgor Cynllunio. Roedd y Canllaw hefyd wedi'i ddiweddaru ar ôl gweithredu Polisi Cyfarfodydd Aml-Leoliad diwygiedig y Cyngor, a gytunwyd gan y Cabinet ar 7 Medi 2023.

Heb unrhyw sylwadau na chwestiynau nac awgrymiadau, gwnaeth y Pwyllgor wedyn

PENDERFYNWYD -

(1) BOD y Canllaw diwygiedig ar gyfer Siarad Cyhoeddus yn y Pwyllgor Cynllunio, sydd ynghlwm fel Atodiad A yr adroddiad, yn cael ei gymeradwyo a'i gyfeirio at y Cyngor Llawn i'w benderfynu'n derfynol.

(2) BOD trefniadau ar gyfer siarad yn gyhoeddus yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio i’w hadolygu'n rheolaidd bob dwy flynedd.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Er mwyn sicrhau bod barn y Pwyllgor Cynllunio yn cael ei hystyried cyn i'r Cyngor Llawn gymeradwyo'r Canllaw Siarad yn Gyhoeddus yn derfynol.

(2) I fonitro effeithiolrwydd y trefniadau.

732 SIARAD CYHOEDDUS YNG NGHYFARFODYDD IS-BWYLLGOR HAWLIAU TRAMWY CYHOEDDUS – ADOLYGIAD (CL) –

Cyflwynodd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu yr adroddiad, a'i ddiben oedd rhoi gwybod i'r Aelodau am yr adolygiad a gynhaliwyd a chyflwyno Canllaw’r Is-bwyllgor ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus (HTC) ar Siarad yn Gyhoeddus wedi'i ddiweddaru, a oedd ar gael i hyrwyddo'r swyddogaeth siarad cyhoeddus yng nghyfarfodydd Is-bwyllgor y Pwyllgor Cynllunio.

Daeth y Canllaw’r Is-bwyllgor HTC ar Siarad yn Gyhoeddus (y Canllaw) yn weithredol ar 17 Awst, 2015. Ar ôl gweithredu Polisi Cyfarfod Aml-leoliad diwygiedig y Cyngor, a gytunwyd gan y Cabinet ar 7 Medi 2023, cynhaliwyd adolygiad o'r Canllaw i Siarad.

Wrth gynnal yr adolygiad, cynhaliwyd ymgynghoriad gyda swyddogion fel yr amlinellwyd ar dudalen eglurhaol yr adroddiad, a diwygiwyd y Canllaw i gydfynd yn well â’r trefniadau siarad cyhoeddus a oedd ar waith yn y Pwyllgor Cynllunio.

Heb unrhyw sylwadau na chwestiynau nac awgrymiadau, gwnaeth y Pwyllgor wedyn

PENDERFYNWYD -

(1) BOD y Canllaw diwygiedig ar Siarad yn Gyhoeddus yn yr Is-bwyllgor Hawliau Tramwy Cyhoeddus, sydd ynghlwm fel Atodiad A yr adroddiad, yn cael ei gymeradwyo a'i gyfeirio at y Cyngor Llawn i'w benderfynu'n derfynol.

(2) BOD trefniadau ar gyfer siarad yn gyhoeddus mewn cyfarfodydd Is-bwyllgor Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn cael eu hadolygu'n rheolaidd bob dwy flynedd.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Er mwyn sicrhau bod barn y Pwyllgor Cynllunio yn cael ei hystyried cyn i'r Cyngor Llawn gymeradwyo'r Canllaw ar Siarad yn Gyhoeddus yn yr Is-bwyllgor Hawliau Tramwy Cyhoeddus.

(2) I fonitro effeithiolrwydd y trefniadau.

733 ARGYMHELLION ARCHWILIO CYMRU YNGHYLCH LLYWODRAETHU A'R GWASANAETH CYNLLUNIO (CL) –

Pwrpas yr adroddiad oedd cyflwyno canfyddiadau adolygiad Archwilio Cymru o drefniadau llywodraethiant y Gwasanaeth Cynllunio, a chyflwyno'r ymateb arfaethedig i'r argymhellion hynny.

Wrth gyflwyno'r adroddiad, dwedodd y Pennaeth Datblygu Cynaliadwy ym mis Mawrth 2023 bod Archwilio Cymru wedi cynghori'r Cyngor y byddai eu gwaith archwilio lleol ar gyfer 2023-2024 yn ymwneud â Chynllunio. Ym mis Gorffennaf 2023 fe wnaeth Archwilio Cymru anfon eu briff prosiect, a oedd yn egluro y byddai'r adolygiad yn canolbwyntio ar Drefniadau Llywodraethiant y Gwasanaeth Cynllunio. Roedd briff y prosiect wedi'i atodi yn Atodiad A yr adroddiad.

Maes o law, cynhaliwyd yr adolygiad gan Archwilio Cymru ym mis Gorffennaf/Awst 2023 i gael sicrwydd pellach bod trefniadau priodol ar waith o ran llywodraethiant y gwasanaeth Cynllunio, a bod gwerth am arian yn ei ddefnydd o adnoddau. Amlinellodd Atodiad B yr adroddiad ganfyddiadau allweddol y gwaith hwn. Roedd canfyddiadau'r adolygiad yn gadarnhaol ar y cyfan, a'r canfyddiad allweddol oedd: *"Canfuom fod diwylliant gwaith cadarnhaol gan y Gwasanaeth Cynllunio a'i fod yn cefnogi'r Cyngor i gyflawni ei amcanion llesiant yn effeithiol ond roedd rhai bylchau yn y trefniadau llywodraethiant yr oedd angen mynd i'r afael â nhw".*

Roedd y canfyddiadau eraill yn cynnwys:

- "Roedd aliniad clir rhwng camau gweithredu allweddol y Gwasanaeth Cynllunio ac amcanion llesiant y Cyngor,
- Gwelwyd diwylliant gwaith cadarnhaol, cyfathrebu da a defnydd ystwyth o adnoddau o fewn y Gwasanaeth Cynllunio,
- Roedd bylchau yn nhrefniadau llywodraethiant y Pwyllgor Cynllunio gan arwain at ddiffyg gweithdrefnau clir i gefnogi swyddogion cynllunio ac aelodau yn eu rolau, a
- Roedd gan y Cyngor drefniadau digonol ar waith i fonitro ac adrodd ar gyfraniad y Gwasanaeth Cynllunio i'r amcanion llesiant."

Felly, gwnaed yr argymhellion canlynol:

- A1:Dylai'r Cyngor gryfhau trefniadau llywodraethiant ei Wasanaeth Cynllunio drwy:
    - Gytuno ar Gylch Gorchwyl i Bwyllgor Cynllunio'r Cyngor ddatgan yn glir ei ddiben, ei rôl a'i gyfrifoldebau. Dylai'r Cyngor adolygu'r Cylch Gorchwyl yn rheolaidd,
    - Datblygu Protocol Cynllunio mewn iaith glir a'i gynnwys yn y Cyfansoddiad ac ar dudalen we Gwasanaeth Cynllunio'r Cyngor fel ei bod yn hawdd ei gyrchu gan Aelodau a'r cyhoedd. Dylai'r Cyngor sicrhau bod aelodau a swyddogion yn deall ac yn gweithredu yn unol â'r Protocol Cynllunio.

    - Ymgymryd â'i adolygiad arfaethedig o'r Cynllun Dirprwyo i sicrhau bod y Pwyllgor Cynllunio yn canolbwyntio ar y ceisiadau cynllunio mwyaf strategol bwysig, a
    - Sicrhau bod ceisiadau cynllunio a gyflwynwyd gan, neu ar ran, y swyddogion yn y gwasanaeth Cynllunio a'r gwasanaethau ategol yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor Cynllunio ac nid o dan bwerau a ddirprwywyd i swyddogion er mwyn diogelu rhag unrhyw wrthdaro buddiannau canfyddedig ac i hyrwyddo annibyniaeth a thryloywder.

- A2: Dylai Gwasanaeth Cynllunio'r Cyngor gyflwyno ei fesurau perfformiad a'i dargedau yn glir yn ei gynllun gwasanaeth.

Mewn ymateb i'r argymhellion uchod, cynigiwyd y dylai'r Cyngor fabwysiadu Protocol Cynllunio a Chylch Gorchwyl, diwygio'r Cynllun Dirprwyo (i gynnwys cyfeiriad penodol at eithrio'u ceisiadau eu hunain gan Swyddogion Cynllunio / cysylltiedig o bwerau dirprwyedig), a darparu mesuriadau perfformiad mwy eglur mewn Cynlluniau Gwasanaeth yn y dyfodol. Manylwyd ar y materion hynny yn y Ffurflen Ymateb Sefydliadol (FYS) a atodwyd fel Atodiad C i'r adroddiad.

Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried cynnwys yr adroddiadau gydag unrhyw argymhellion/sylwadau yn cael eu cyfeirio at Bwyllgor Craffu yr Amgylchedd ac Adfywio, gydag atgyfeiriad dilynol at y Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio ac wedi hynny, adroddiad ar wahân i'r Cabinet i'w ystyried a'i gymeradwyo cyn adrodd i'r Cyngor Llawn. Nodwyd y cylch adrodd yn y FYS fodd bynnag, tynnodd y Pennaeth Datblygu Cynaliadwy sylw at y ffaith nad oedd dyddiadau a nodwyd yn y FYS bellach yn berthnasol oherwydd bod cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Cynllunio wedi cael eu canslo. Cynigiwyd y dylid darparu'r Cylch Gorchwyl, y Protocol Cynllunio ac unrhyw newidiadau penodol i'r Cynllun Dirprwyo i'r Cabinet ac yna'r Cyngor Llawn.

Yn dilyn cyflwyniad y Swyddog, rhannodd Aelodau'r Pwyllgor a'r swyddogion y negeseuon allweddol amrywiol yr oeddent wedi'u derbyn drwy gymryd rhan mewn cyfweliadau unigol fel rhan o brosiect cwmpasu Archwilio Cymru er mwyn creu'r adroddiad sy'n cael ei ystyried.

Mynegodd y Cynghorydd Ernest bryderon ynghylch y cynnydd yn nifer y Ceisiadau Cynllunio a wneir o dan bwerau dirprwyedig i swyddogion a'r duedd gynyddol y buont yn dyst iddi yn ystod eu tymhorau yn y swydd. Mynegwyd pryder hefyd ynghylch cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor yn cael eu canslo a'u dehongliad bod Archwilio Cymru o'r farn y dylai'r Pwyllgor fod yn fwy effeithlon o ran y cynnwys agenda. I gloi, dwedodd y Cynghorydd Ernest fod gan yr adroddiad gerbron y Pwyllgor oblygiadau ar gyfer materion sydd yn rhan o swyddogaeth Pwyllgorau eraill ac felly roedd angen lledaenu'r adroddiad yn ehangach.

Yna mynegodd y Cynghorydd Cave bryderon ynghylch cyn lleied o gynnwys agenda oedd ar gyfer y Pwyllgor ac awgrymodd y dylid rhoi proses ychwanegol ar waith i sicrhau bod gan y Pwyllgor rywfaint o fewnbwn a gwell dealltwriaeth o'r hyn a oedd ac na fyddai'n cael ei ddwyn ymlaen i'w ystyried. Gofynnodd y Cynghorydd Cave hefyd am eglurder ar eu dehongliad y byddai'r weithdrefn galw i mewn yn

cael ei lleihau.

Mewn ymateb i bryderon yr Aelodau, rhoddodd Pennaeth Datblygu Cynaliadwy gyngor ar y ddealltwriaeth o'r pwyntiau a godwyd yn eu cyfweliad nhw ag Archwilio Cymru fel a ganlyn:

- Roedd Archwilio Cymru yn awyddus i sicrhau:
  - Bod yr hyn y byddent yn ei ddisgrifio fel ceisiadau strategol a chorfforaethol bwysig, yn dod gerbron y Pwyllgor Cynllunio.  Er enghraifft, dylai ceisiadau mawr fel safleoedd cyflogaeth a oedd yn gymharol llai dadleuol ond a oedd yn cynnwys llawer o ofod llawr ddod gerbron y Pwyllgor oherwydd yr hyn yr oedd y cais yn ei olygu i'r Cyngor allu cyflawni ar ofod cyflogaeth,
  - Mwy o bwyslais ar sicrhau bod amser y Pwyllgor yn cael ei neillto i'r ceisiadau strategol bwysig ac nid ceisiadau nad oes gwir angen i'r Pwyllgor fod yn eu gweld i sicrhau gwerth am arian wrth ddarparu'r gwasanaeth fel bod y Cyngor yn gweithredu mewn ffordd effeithlon yn yr hinsawdd ariannol bresennol, ac
  - Roedd Archwilio Cymru eisiau i'r Pwyllgor Cynllunio fod yn effeithlon o ran yr hyn yr oedd yn edrych arno felly doedden nhw ddim yn eiriol dros agendâu hirach gyda mwy o eitemau ond cydnabuwyd ei bod yn bwysig taro ar gydbwysedd, yn enwedig wrth ystyried materion o bwysigrwydd lleol.
- Roedd adran 18 yn adroddiad Atodiad B yn nodi bwriadau Archwilio Cymru o ran diwygio Cynllun Dirprwyo'r Cyngor i sicrhau bod y math cywir o geisiadau yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor.
- Roedd gan yr Aelodau hawl i alw ceisiadau i mewn a pharhaodd gweithdrefn yn ei le ar gyfer galw i mewn i gael eu hystyried gan y Pennaeth Datblygu Cynaliadwy a Chadeirydd y Pwyllgor.  Nid oedd Archwilio Cymru yn awgrymu y dylai'r Cyngor gyfyngu'n benodol na newid y weithdrefn Alw i mewn.

Yna manteisiodd y Cynghorydd Wilson ar y cyfle i atgoffa'r Pwyllgor y gallai unrhyw Aelod Etholedig o'r Cyngor alw cais cynllunio i mewn, fodd bynnag, ni ddylid cymryd y penderfyniad i wneud hynny'n ysgafn a dylid ei ystyried law yn llaw â'r broses apeliadau cynllunio a cholledion ariannol cysylltiedig, posibl, i’w hysgwyddo gan y Cyngor.  Roedd yn bwysig i'r Pwyllgor flaenoriaethu ei amser ar y ceisiadau mwy eu maint.

I gloi, ailadroddodd yr Is-Gadeirydd bwrpas y Pwyllgor Cynllunio i wneud penderfyniadau ar sail Cyfraith Gynllunio ac ailadroddodd y Cadeirydd y byddai Pwyllgorau eraill yn ymgynghori ar yr adroddiad fel y'i cyflwynwyd fel y nodir yn y FYS.

Heb unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach, gwnaeth y Pwyllgor wedyn

PENDERFYNWYD -

(1) BOD y canfyddiadau sy'n deillio o'r adolygiad o drefniadau llywodraethiant y Gwasanaeth Cynllunio, argymhellion Archwilio Cymru a'r ymateb arfaethedig i'r

argymhellion hynny sef mabwysiadu Protocol Cynllunio a Chylch Gorchwyl, diwygio'r Cynllun Dirprwyo (gan gynnwys cyfeirio'n benodol at eithrio ceisiadau Swyddogion Cynllunio/cysylltiedig eu hunain rhag pwerau dirprwyedig), a darparu mesuriadau perfformiad mwy eglur mewn Cynlluniau Gwasanaeth yn y dyfodol, oll yn cael eu nodi.

(2) BOD yr adroddiad yn cael ei gyfeirio at Bwyllgor Craffu Amgylchedd ac Adfywio, ar ôl hynny y Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio, ac wedi hynny adroddiad ar wahân i'r Cabinet fwrw golwg drosto a'i gymeradwyo, cyn cael ei adrodd i'r Cyngor Llawn. Cynigir y dylid darparu'r Cylch Gorchwyl, y Protocol Cynllunio ac unrhyw newidiadau penodol i'r Cynllun Dirprwyo i'r Cabinet (ac yna'r Cyngor Llawn).

<u>Y rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1) Er mwyn gallu craffu ar ganfyddiadau adolygiad Archwilio Cymru o drefniadau llywodraethiant y Gwasanaeth Cynllunio.

(2) I sicrhau bod y Cyngor yn ymateb yn briodol ac yn gweithredu meysydd i'w gwella fel y nodwyd gan Archwilio Cymru.

734 CEISIADAU RHEOLI ADEILADAU A MATERION RHEOLI ADEILADAU ERAILL A BENDERFYNWYD GAN BENNAETH ADFYWIO A CHYNLLUNIO DAN BWERAU DIRPRWYEDIG (PDC) –

PENDERFYNWYD –

(1) NODI'r ceisiadau rheoliadau adeiladau a basiwyd, fel y'u rhestrwyd yn Adran A yr adroddiad.

(2) Y DYLID nodi'r ceisiadau adeiladu a wrthodwyd, fel y'u rhestrir yn Adran B yr adroddiad.

(3) NODI'r broses o gyflwyno Hysbysiadau dan y Rheoliadau Adeiladu (Arolygwyr Cymeradwy etc.) 2000, fel y'i nodir yn Adran C o'r adroddiad.

735 CEISIADAU CYNLLUNIO A BENDERFYNWYD GAN BENNAETH DATBLYGU CYNALIADWY DAN BWERAU DIRPRWYEDIG (PDC) –

PENDERFYNWYD – BOD y ceisiadau fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad, ar dudalennau 12 trwy 30, o dan y pwerau wedi'u nodi uchod.

736 APELIADAU (PDC) –

PENDERFYNWYD -

(1) BOD yr apeliadau a dderbyniwyd ar ôl i'r Cyngor wrthod rhoi caniatâd

cynllunio, fel y nodir yn Adran A yr adroddiad, yn cael eu nodi.

(2) NODI nad oedd unrhyw Apeliadau Gorfodi wedi’u derbyn ar adeg cynnal y cyfarfod.

(3) NODI nad oedd unrhyw Benderfyniadau Apeliadau Cynllunio wedi’u derbyn ar adeg cynnal y cyfarfod.

(4) BOD y Penderfyniadau Apeliadau Gorfodi, fel y manylir arnynt yn Adran D yr adroddiad, yn cael eu nodi.

(5) BOD yr ystadegau'n ymwneud ag apeliadau am y cyfnod Ebrill 2022 - Mawrth 2023, fel y manylir arnynt yn Adran E yr adroddiad, yn cael eu nodi.

737 COED (PDC) –

(i) <u>Rhestr Ddirprwyedig</u>

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi'r ceisiadau fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad, ar dudalennau 38 trwy 42, fel y penderfynir gan y Pennaeth Datblygu Cynaliadwy o dan bwerau dirprwyedig.

738 GORFODAETH (PDC) –

(i) <u>Tir yn Hayes Road, Sili</u>

PENDERFYNWYD – Nodi’r adroddiad.

(ii) <u>Tir ac Adeiladau ar Dir oddi ar Redway Road, Pendeulwyn</u>

Roedd yr adroddiad yn ceisio awdurdodiad i gyhoeddi Hysbysiad Gorfodi o dan adran 172 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd) ynghylch adeilad newydd a godwyd mewn cae sydd wedi'i leoli oddi ar Redway Road, Pendeulwyn. Roedd yr adeilad dan sylw yn un petryal â chladin pren gyda tho fflat, ffenestri UPVC wedi'u gosod i'r gweddlun blaen ac i’r ochr a drws UPVC ar y gweddlun blaen.

Roedd yr adroddiad yn argymell, gan nad oedd cyfiawnhad i’r adeilad at ddibenion amaethyddol, fe gyhoeddwyd Hysbysiad Gorfodi yn ei gwneud yn ofynnol i dynnu’r adeilad o'r tir. Gofynnwyd am awdurdod hefyd i ddechrau ar gamau cyfreithiol os na chydymffurfid â’r Hysbysiad Gorfodi.

PENDERFYNWYD -

(1) BOD Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd yn cael ei awdurdodi i gyhoeddi Hysbysiad Gorfodi dan Adran 172 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd) i:

(i) Roi'r gorau i ddefnydd preswyl o'r adeilad.
(ii) Tynnu yr holl osodiadau domestig, ffitiadau ac eitemau o'r adeilad pren.
(iii) Dymchwel yr adeilad pren.
(iv) Symud o'r tir yr holl eitemau a deunyddiau sy'n deillio o gymryd camau (i) a (ii) uchod ac adfer y tir i'w gyflwr blaenorol cyn i'r tramgwydd ddigwydd.

(2) AWDURDODI, os na chydymffurfid â'r Hysbysiad, cymryd unrhyw gamau cyfreithiol sy'n ofynnol.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Ymddengys i'r Cyngor fod y tramgwydd rheolaeth gynllunio uchod sef datblygiad gweithredol i godi adeilad hirsgwar â chladin pren, wedi digwydd o fewn y 4 blynedd diwethaf.

(2) Mae'r adeilad wedi'i leoli y tu allan i unrhyw ffin anheddiad a nodwyd yn y CDLl ac o fewn lleoliad anghynaladwy Gan nad oes cyfiawnhad amaethyddol dros yr adeilad hwn, ystyrir bod lleoli adeilad o'r fath mewn lleoliad cefn gwlad anghynaladwy yn annerbyniol o ran egwyddor. Ystyrir maint, dyluniad ac ymddangosiad yr adeilad cladin pren anawdurdodedig yn niweidiol i gymeriad gwledig cyfagos yr ardal a'r dirwedd ehangach, sydd wedi'i dynodi'n Ardal Tirwedd Arbennig. Mae'r deunyddiau adeiladu a ddefnyddir gan gynnwys gosod drysau patio ac UPVC, yn cyflwyno ymddangosiad domestig llethol nad yw'n gweddu'n dda â'r dirwedd ac felly cânt eu hystyried yn annerbyniol. Ystyrir felly bod y datblygiad yn gwrthdaro â pholisïau SP1 (Cyflawni'r Strategaeth), SP10 (Amgylchedd Adeiledig a Naturiol), MG17 (Ardaloedd Tirwedd Arbennig), MD1 (Lleoliad Datblygiad Newydd), a MD2 (Dyluniad Datblygiad Newydd) y CDLl yn ogystal â PCC (Argraffiad 11, 2021) a NCT 6, sef nad oes cyfiawnhad iddo fel rhan o fenter wledig, a TAN 12 yn yr ystyr nad yw'r adeilad cydweddu â'r cyd-destun gwledig lleol.

(3) Er gwaethaf cyfarfodydd ar y safle a gohebiaeth gyda pherchennog y tir, ni chafwyd unrhyw arwydd pellach bod y perchennog yn barod i ddatrys y tramgwydd, ac mae'r adeilad yn parhau i fod wedi'i leoli ar y tir yn groes i reolaeth gynllunio.

(4) Ystyrir bod y penderfyniad yn cydymffurfio ag amcanion lles y Cyngor a'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

739 CEISIAD CYNLLUNIO (PDC) –

PENDERFYNWYD – Yn unol â'r pwerau a ddirprwywyd i'r Pwyllgor, y penderfynir ar y ceisiad a ganlyn fel y nodir a chymryd unrhyw gamau angenrheidiol eraill.

**2021/01710/FUL** Derbyniwyd ar 23 Medi 2022
(t70)
**YMGEISYDD**: Business Loan Services (UK) Ltd Pension Scheme, C/o Asiant,
**ASIANT:** Mr Andrew Ayles, Swyddfa 14, 35 Stow Park Circle, Casnewydd, NP20 4HF

**Hen Gapel Methodistaidd Eastbrook, Chapel Row, Eastbrook, Dinas Powys**

Dymchwel adeilad capel a chodi byngalo dormer, darpariaeth parcio ac amwynderau ar y safle a datblygiad cysylltiedig â hynny.

Datganodd y Cynghorydd Gilligan fuddiant sy'n rhagfarnu ynghlwm â'r eitem hon ac felly tynnodd allan o'r cyfarfod cyfan ac ni chymerodd ran mewn unrhyw bleidlais gysylltiedig.

Wrth gyflwyno'r adroddiad, amlygodd y Prif Gynllunydd wall drafftio ar dudalen 96 yr adroddiad lle nad oedd testun wedi'i hepgor o'r argymhellion fel y bwriadwyd. Felly, dylid diwygio'r testun a nodir ar y dudalen rhwng y Pennawd Argymhelliad ac Argymhelliad 1, i "gymeradwyo yn ddarostyngedig i amodau", a dileu y testun gwallus canlynol: "Yn amodol ar y person(au) perthnasol yn y lle cyntaf yn ymrwymo i gytundeb cyfreithiol Adran 106 neu yn ymrwymo i gynnwys y rhwymedigaethau cynllunio angenrheidiol fel a ganlyn:
• *i dalu cyfraniad ariannol sef swm o £27,631.20 am gyfraniad tai fforddiadwy oddi ar y safle."*

Galwyd pleidlais i'w chofnodi ar gyfer y Cais, yn seiliedig ar yr argymhellion yn yr adroddiad fel y'i diwygiwyd, gyda'r canlyniadau fel a ganlyn:

| Aelod | O blaid | Yn erbyn | Ymatal |
|---|---|---|---|
| G. Bruce | | √ | |
| I. Buckley | √ | | |
| Mrs. C.A. Cave | √ | | |
| C. Champion | √ | | |
| M. Cowpe | | | |
| Mrs P. Drake | √ | | |
| A. Ernest | √ | | |
| W. Gilligan | | | |
| N.P. Hodges | | √ | |
| Dr. I.J. Johnson | | √ | |
| H. Payne | | √ | |
| S. Perkes | | | √ |
| I. Perry | | √ | |
| C. Stallard | | √ | |
| N. Thomas | √ | | |
| E. Williams | √ | | |
| M.R. Wilson | | | √ |
| **CYFANSWM** | 7 | 6 | 2 |

CYMERADWYWYD – Yn ddarostyngedig i'r amodau a gynhwysir yn yr adroddiad.

Y rheswm dros y penderfyniad

Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

**2023/00087/FUL** Derbyniwyd ar 27 Ionawr 2023
(t102)
**YMGEISYDD**: Loft-Co Urban Regeneration Company Limited D/O Asiant,
**ASIANT:** Gwen Thomas Uned 9, Oak Tree Court, Parc Busnes Porth Caerdydd, Caerdydd, CF23 8RS

**Eglwys Fethodistaidd Crossway, Court Road, Y Barri**

Datblygiad arfaethedig o 15 mewn nifer o fflatiau fforddiadwy a gwaith cysylltiedig

Galwyd pleidlais i'w chofnodi ar gyfer y Cais, gyda'r canlyniadau fel a ganlyn:

| **Aelod** | **O blaid** | **Yn erbyn** | **Ymatal** |
|---|---|---|---|
| G. Bruce | | √ | |
| I. Buckley | √ | | |
| Mrs. C.A. Cave | √ | | |
| C. Champion | | | |
| M. Cowpe | | | |
| Mrs P. Drake | √ | | |
| A. Ernest | | √ | |
| W. Gilligan | √ | | |
| N.P. Hodges | | √ | |
| Dr. I.J. Johnson | | √ | |
| H. Payne | √ | | |
| S. Perkes | √ | | |
| I. Perry | | √ | |
| C. Stallard | √ | | |
| N. Thomas | √ | | |
| E. Williams | √ | | |
| M.R. Wilson | √ | | |
| **CYFANSWM** | 10 | 5 | 0 |

CYMERADWYWYD – Yn amodol ar yr amodau a gynhwysir yn yr adroddiad.

Y rheswm dros y penderfyniad

Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

**<u>2023/00337/FUL</u>** Derbyniwyd ar 29 Mawrth 2023
(t128)
**YMGEISYDD**: Mr Huw Llewellyn Great House Farm, Pen-llin, Y Bont-faen, CF71 7RQ
**ASIANT:** Ms Bethan Evans Uned 9, Oak Tree Court, Parc Busnes Porth Caerdydd, Caerdydd, CF23 8RS

**Great House Farm, Pen-llin**

Newid defnydd arfaethedig o ddefnydd amaethyddol i lety glampio i ymwelwyr yn cynnwys 3 iwrt, unedau cegin ar wahân a throi ysgubor bresennol yn floc cawodydd a storfa fferm.

GOHIRIO – i gyfarfod o'r Pwyllgor yn y dyfodol, o ystyried yr angen i ailymgynghori â chymdogion am gyfnod ymgynghori o 21 diwrnod, yn dilyn cyflwyno tystysgrif perchnogaeth ddiwygiedig.